

Ti

Ti yw'r un sy'n dweud 'mae'n iawn',  
yn tynnu coes i basio'r p'nawn.

Ti yw'r un sy'n sychu'r gwaed,  
yn gosod baglau wrth fy nhraed.

Ti yw'r llenni lliwgar braf  
sy'n lliwio oriau hir yr haf.

Ti yw'r tiwb sy'n cario aer  
i mi gael sgwrsio gyda'm chwaer.

Ti yw bîp y peiriant mawr  
sydd wrth fy ngwely bach bob awr.

Ti yw'r un sy'n canu cân  
pan fyddai wedi blino'n lân.

Ti yw'r un sy'n creu cast gwych  
ac aros nes bod dagrau'n sych.

Ti yw'r doctor ddaw â gwên  
a llygaid doeth a geiriau clên.

Ti yw'r nyrs sy'n 'nabod Mam,  
yn 'nabod fi, yn gwybod pam.

Ti yw'r un sy'n gwagio'r pot,  
yn gwagio'r bin, yn chwerthin lot.

Ti yw'r dwylo, meddal, mud,  
sy'n dod â chysur, cynnes, clyd.

Ti yw'r curiad, cyson, iach  
sy'n dawnsio lond fy nghalon fach.

Ti yw'r ffrind sydd fyth ymhell,  
yn ffrind am oes pan fyddai'n well.

Casia Wiliam (Bardd Plant Cymru 2017–2019)

Yn gyflwynedig i wardiau plant ysbytai Cymru ar achlysur dathlu 70 mlynedd o'r GIG yng Nghymru yn 2018.

## Ewch ati i ysgrifennu cerdd eich hun...

*“Rydym ni gyd yn sal o dro i dro, a weithiau mae’n rhaid i ni fynd at y doctor neu fynd i’r ysbyty er mwyn cael gofal, moddion neu driniaeth i wella. Mae’n bosib y byddwn ni’n sal am hir, neu’n well eto cyn pen dim, ond beth bynnag yw’r sefyllfa, rydym yn ffodus iawn yma yng Nghymru i gael Gwasanaeth Iechyd Gwladol.*

*Mae’r GIG, neu’r NHS yn Saesneg, yn golygu bod pob un ohonom yn cael gofal meddygol am ddim, sydd yn beth arbennig iawn. Yn rhai o wledydd y byd mae’n rhaid talu i fynd at y doctor ac i gael moddion, ac mewn gwledydd tlawd iawn gall fod yn anodd cael gofal meddygol o gwbl. Felly mae gennym le i fod yn ddiolchgar tu hwnt o’r Gwasanaeth, ac yn falch ohono hefyd.”*

Yn y gerdd ‘Ti’, rydw i wedi bod yn meddwl am holl elfennau o’r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, ac yn pethau dwi’n meddwl amdanynt pan dwi’n meddwl am fynd at y doctor neu fynd i’r ysbyty. Beth am i ti roi cynnig arni hefyd?

1. Gwna **restr** o’r holl bethau sy’n dod i dy feddwl pan y byddi’n meddwl am ysbyty.
  - Beth sydd yna i’w **weld** mewn ysbyty?
  - Sut **arogl** sydd yno?
  - Pa **liwiau** sydd i’w gweld?
  - Sut **bobl** sydd o gwmpas y lle?
  - Sut **wyt ti’n teimlo** yno?




2. Yna, ceisia feddwl am rhwybeth i **odli** gyd pob un gair. Odli ydi pan mae dau air yn gorffen gyda'r un sŵn, fel cawr a mawr.
3. Ar ôl i ti gael **rhestr** o **odlau**, gelli di ddechrau ar dy gerdd.
4. Beth am wneud fel fi, a dechrau bob brawddeg gyda 'Ti yw'r...'
5. Cofia y gelli di son am bethau sydd **ddim yn bobl**, fel dwi wedi wneud:

*Ti yw'r llenni **lliwgar** braf  
sy'n **lliwio** oriau hir yr haf.*

6. A chofia ddefnyddio **digon** o **ansoddeiriau** i ddot â'r darluniau yn fyw i'r darlennydd. Geiriau disgrifio ydi ansoddeiriau, e.e swllyd, lliwgar, mawr, drewllyd ac yn y blaen.



Pob lwc yn ysgrifennu dy gerdd! Ac os wyt ti mewn ysbyty yn darllen hwn, neu yn y feddygfa, gobeithio y byddi di'n teimlo'n well yn fuan iawn.



Cofion,

Casia

Bardd Plant Cymru

O.N Oeddet ti'n gwybod mai **Cymro** wnaeth sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol? **Cymro** o'r enw **Aneurin Bevan**, oedd yn dod o **Dredegar yng Nghymoedd De Cymru**.